



Gwasanaeth Galluogi Ceredigion

Mae'r canllaw hwn wedi'i ddarparu ar eich cyfer am eich bod yn cael eich ystyried ar gyfer cymorth Galluogi.

Mi fydd yn eich helpu i ddeall beth allwch chi ddisgwyl gan ein gwasanaeth Galluogi.

Mae Galluogi yn wasanaeth di-dâl a ddarperir gan Gyngor Sir Ceredigion am **hyd at** chwe wythnos, i'ch helpu i ddod yn annibynnol eto yn eich gweithgareddau o ddydd i ddydd. Gwneir hyn drwy ymyrraeth ddwys tymor byr yn dilyn eich salwch neu ddamwain.

Ein nod yw helpu pobl i aros gartref a bod mor annibynnol ac actif â phosib, atal pobl rhag gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty yn ddiangen, cynorthwyo pobl i adael yr ysbyty ar yr adeg iawn, atal pobl rhag mynd i gartrefi gofal, a helpu pobl i ddychwelyd gartref o ofal preswyl.

Pwy sy'n darparu'r Gwasanaeth?

Mae gennym nifer o weithwyr proffesiynol all fod yn ymwneud â chi trwy gydol eich amser gyda'r gwasanaeth (ni fydd pob un o'r rhain yn ymwneud â chi ar yr un pryd), sef:

- Cynorthwywyr Galluogi, a fydd yn ymweld â chi i'ch helpu i gyrraedd eich nod o fod yn annibynnol
- Gweithwyr/cynorthwywyr cymdeithasol
- Swyddogion Asesu ac Adolygu
- Cynorthwywyr Therapi Galwedigaethol
- Mynediad at weithwyr proffesiynol eraill os oes angen e.e. nyrsys, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion ac ati.

Beth yw'r drefn?

- Mi fyddwch chi ac aelod o'r Gwasanaeth yn trafod eich anghenion ac yn penderfynu a allwn ni helpu ai peidio.
- Os allwn ni helpu, byddwn yn cytuno ar Gynllun Galluogi gyda chi ac yn gosod Nodau.
- Gall gofalwr, aelod o'ch teulu neu ffrind gymryd rhan yn yr asesiad a helpu gyda'r cynllun os ydych chi'n dymuno, ac os ydyn nhw'n barod i wneud hynny.
- Bydd y cynllun hwn yn cael ei arwyddo gennych chi neu eich cynrychiolydd, a thrwy hynny rydych chi'n cydsynio i gymryd y camau a gytunwyd.
- Tra byddwn ni'n gweithio gyda chi, byddwch yn derbyn Ffeil Cartref a fydd yn cynnwys y Nodau a gytunwyd, y gwasanaethau sydd eu hangen, pwy fydd yn eu darparu a phryd y byddant yn ymweld â chi.

Beth fydd yn digwydd yn ystod fy Rhaglen Galluogi?

Bydd cynllun unigol yn cael ei gytuno gyda chi, sy'n anelu at gyflawni'r nodau a gytunwyd ar y cyd. Bydd eich cynnydd yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd.

Gall eich cynllun gynnwys ymarfer tasgau penodol, er enghraifft:

- Paratoi pryd o fwyd neu ymwisgo
- Dysgu sut i ddefnyddio darnau o gyfarpar arbennig i'ch helpu i adennill sgiliau a bod mor annibynnol â phosib

Mae hyn yn golygu ymrwymiad ar eich rhan chi i weithio tuag at y nodau a gytunwyd.

Beth sy'n digwydd pan ddaw'r Gwasanaeth i ben?

Y gobaith yw y byddwch chi, ar ddiwedd y cyfnod a gytunwyd, wedi cyflawni'r nodau a osodwyd ac yn annibynnol, ond os bydd angen rhywfaint o gymorth parhaus arnoch, byddwn yn trafod hynny gyda chi cyn i'r rhaglen ddod i ben, gan sicrhau bod eich anghenion yn cael eu bodloni.

Os bydd angen gofal parhaus arnoch, bydd y Cyngor yn dod o hyd i asiantaeth gofal preifat all eich darparu â hwnnw. Efallai, fodd bynnag, na fydd modd iddyn nhw ddod atoch chi ar yr un amserau ymweld, er y byddan nhw o fewn dwy awr o'n amser ymweld ni. Os yw'n well gennych, gallwn wneud o leiaf un ymweliad ar y cyd gyda'n Cynorthwydd Gwasanaeth Galluogi a'r asiantaeth gofal newydd (neu gydag achosion cymhleth, hyd at 3 diwrnod) i hwyluso'r broses o drosglwyddo'r gofal.

Os byddwch chi'n gwrthod pecyn gofal amgen rhesymol gan yr asiantaeth gofal annibynnol, bydd y Gwasanaeth Galluogi'n rhoi saith diwrnod o rybudd ichi bod eu gwasanaeth nhw gyda chi'n dod i ben.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn llwyr gefnogi'r egwyddor o gydraddoldeb, mae'n cydnabod pwysigrwydd mynediad teg, ac mae'n gweithredu i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bob defnyddiwr gwasanaeth a Gofalwr.

A fydd yn rhaid imi dalu?

Mae'r Gwasanaeth Galluogi yn rhad ac am ddim am **hyd at** chwe wythnos, neu nes bod anghenion gofal parhaus hirdymor yn cael eu nodi. Codir tâl am anghenion gofal hirdymor, a osodir yn flynyddol gan yr Awdurdod Lleol, felly gall fod angen ichi dalu am eich Gwasanaeth Galluogi tra'n bod ni'n dod o hyd i asiantaeth annibynnol i ddarparu'ch gofal parhaus. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi a'ch gofalwr unwaith y bydd eich anghenion gofal hirdymor wedi'u nodi. Fodd bynnag, gallwch gael asesiad ariannol i ganfod faint y byddai angen ichi dalu.

Mi fydd ein Tîm Galluogi bob amser yn sicrhau:

- Bod ein holl staff yn gwrtais ac yn eich trin â pharch
- Lle bo modd, bydd staff yn cyfathrebu â chi yn eich dewis iaith. Bydd y cyfathrebu (iaith) a ddefnyddir yn briodol ac yn hawdd ei deall
- Tra byddant yn eich cartref, bydd staff bob amser yn gwneud pob ymdrech i'ch cynnwys chi yn eu sgysiau
- Mi fyddwch chi, neu rywun sy'n gweithredu ar eich rhan, bob amser yn rhan o drafodaethau am eich gofal a'ch cymorth
- Byddwn yn eich cynorthwyo os oes angen help arnoch i wneud penderfyniadau
- Byddwch yn cael cyfleoedd, anogaeth, a chymorth i fyw mor annibynnol ag y dymunwch

- Cyn bod unrhyw ryngweithio'n cymryd lle, byddwn yn gofyn ichi a ydych chi'n cytuno iddo
- Byddwn yn sicrhau eich urddas, preifatrwydd a hawliau dynol bob amser.

Ansawdd eich Gwasanaeth Galluogi

- Bydd eich gofal yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Gydlynwyr Gofal Galluogi – byddant yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'ch Gweithiwr Cymdeithasol, efallai y byddant yn ymweld â chi, a byddant hefyd yn postio holiadur adborth ichi ei lenwi.
- Bydd adolygiadau'n arwain at newidiadau yn eich pecyn gofal, a all arwain at gynydd neu ostyngiad yn y nifer o ymweliadau a gewch.
- Os ydych chi'n anhapus gydag unrhyw elfen o'r gofal a ddarperir, gallwch chi, neu rywun sy'n gweithredu ar eich rhan gwyno, a bydd y drefn gwyno'n cael ei darparu yn eich pecyn gofal.

Ymddygiad annerbyniol

Mae gan staff galluogi yr hawl i ddod ag ymweliad i ben yn ôl eu disgrisiwn:

- Os ydyn nhw'n teimlo dan fygythiad o unrhyw fath;
- Os oes yna risg i'ch diogelwch chi, y bobl o'ch amgylch, neu nhw'u hunain;
- Os ydych chi dan ddylanwad alcohol, cyffuriau neu unrhyw sylwedd arall ac ni allant gyflawni eu rôl, neu
- Os ydych chi neu'r bobl o'ch amgylch yn ymddwyn yn amhriodol ac ni allant gyflawni eu rôl.

Bydd unrhyw achos o ymddygiad annerbyniol yn cael ei adrodd yn ôl, ynghyd â chais am adolygiad brys. Gall achosion mynych arwain at derfynu'r gwasanaeth.

Mynediad i'r cartref a chyfarpar gofal

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan staff Galluogi fynediad diogel i'ch cartref, gan gynnwys cynnal cyflwr llwybrau a rheoli cŵn neu anifeiliaid anwes eraill. Yn ogystal, rhaid ichi sicrhau bod y cyfarpar gofal sydd gennych chi'n ddiogel ac yn cael ei gynnal yn briodol. Cynhelir asesiad risg iechyd a diogelwch i wneud yn siŵr bod eich cartref yn ddigon diogel a hygyrch ar gyfer staff Galluogi. Ni fydd y gwasanaeth gofal yn cael ei ddarparu tra bod risgiau iechyd a diogelwch sylweddol yn bodoli.

Sut mae hyd yr ymweliadau'n cael eu cofnodi

Os oes angen cymorth arnoch chi gan Gynorthwyyr y Gwasanaeth Galluogi, mae'r Gwasanaeth yn defnyddio system ffôn i roi gwybod i staff uwch eu bod wedi cyrraedd a phryd maent yn gadael. Mae'n anfon rhybudd awtomatig i Gydlynwr y Gwasanaeth Galluogi os ydy'r alwad yn rhedeg yn hwyr, sy'n sicrhau na ellir ei cholli.

Pan fydd eich Cynorthwydd Gwasanaeth Galluogi yn cyrraedd eich cartref mi fydd angen iddyn wneud galwad i rif Rhadffôn o ffôn eich cartref, ac un arall yn union cyn iddyn nhw adael, a bydd y system yn cofnodi'r amserau hyn. Bydd y system yn gwybod bod y galwadau'n dod o'ch ffôn chi oherwydd mi fydd yn adnabod eich rhif ffôn, a defnyddir amserau'r galwadau i ddangos beth yw hyd pob ymweliad.

Sut alla' i gael mynediad at y gwasanaeth?

Os ydych chi yn yr ysbyty, gall y staff sy'n gofalu amdanoch eich cyfeirio.

Os ydych chi gartref, gall eich Meddyg Teulu neu Nyrs Gymunedol eich cyfeirio.

Gallwch hunan-gyfeirio drwy Porth Gofal, a fydd yn gwneud asesiad cychwynnol. Rhif ffôn Porth Gofal yw:



01545 574000

Gwasanaeth Eirioli

Mae Gwasanaeth Eirioli ar gael a lle bo modd, gallwn drefnu bod rhywun yn eich helpu i gyflwyno'ch achos yn ystod eich trafodaethau â ni, os na allwch chi wneud hynny eich hun, ac os nad oes gennych chi deulu neu ffrindiau i'ch helpu.